**SŴAU AC ACWARIA WEDI'U TRWYDDEDU O DAN DDEDDF TRWYDDEDU SŴAU 1981 SY'N CADW RHYWOGAETHAU ANFRODOROL (GAN GYNNWYS RHYWOGAETHAU ESTRON GORESGYNNOL RHESTREDIG): EICH CYFRIFOLDEBAU**

Mae rhai rhywogaethau anfrodorol wedi ymsefydlu ym Mhrydain Fawr ar ôl dianc o gasgliadau. Pwrpas y nodyn cyfarwyddyd hwn yw atgoffa pobl sy'n cadw rhywogaethau o'r fath mewn sŵau trwyddedig yng Nghymru a Lloegr o'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion a nodir yn y nodyn cyfarwyddyd hwn yr un mor berthnasol i sefydliadau sy'n cadw'r rhywogaethau hyn ond sydd wedi'u heithrio rhag gofynion Deddf Trwyddedu Sŵau 1981.

Cyfrifoldebau o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yw'r brif ddeddfwriaeth ddomestig sy'n ymwneud â rhyddhau rhywogaethau anfrodorol. Y gosb uchaf ar gyfer troseddau mewn cysylltiad â rhywogaethau anfrodorol yw dwy flynedd o garchar a dirwy. Y llys fydd yn pennu'r ddirwy ac nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi dirwy uchaf.

O dan y Ddeddf hon, mae'n drosedd rhyddhau unrhyw anifail i'r gwyllt neu ganiatáu i anifail ddianc i'r gwyllt os nad yw'r anifail hwnnw'n preswylio ym Mhrydain Fawr fel arfer nac yn ymwelydd rheolaidd â Phrydain Fawr, neu ei fod wedi'i restru yn Atodlen 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

Mae rhagor o wybodaeth am droseddau yn y ddogfen "Guidance on Section 14 of the Wildlife and Countryside Act 1981"

Cyfrifoldebau o dan Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981

Hefyd, mae adran 1A o Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981 yn mynnu bod sŵau'n atal anifeiliaid rhag dianc ac yn pennu mesurau i'w rhoi ar waith os bydd anifail yn dianc, yn ogystal â chadw cofnod o unrhyw ddihangfa.

Cyfrifoldebau o dan Reoliadau Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 a Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019

Mae cyfyngiadau llym yn berthnasol i rywogaethau anfrodorol penodol sydd wedi'u rhestru o dan Reoliad 1143/2014 yr UE ar atal a rheoli cyflwyniad a lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol. Cyfeirir at y rhywogaethau hyn fel 'rhywogaethau rhestredig' yng ngweddill y nodyn cyfarwyddyd hwn. Mae'r cyfyngiadau'n golygu na ellir mewnforio, cadw, bridio, cludo, defnyddio, cyfnewid, tyfu na meithrin rhywogaethau rhestredig, eu rhoi ar y farchnad, caniatáu iddynt atgenhedlu, na'u rhyddhau i'r amgylchedd. Mae 66 o rywogaethau rhestredig ar hyn o bryd (gweler Atodiad 1). Mae tua 6 ohonynt yn cael eu cadw mewn sŵau mewn gwahanol niferoedd.

Ar ddiwedd y cyfnod pontio, bydd Rheoliad 1143/2014 yr UE yn gyfraith yr UE sy'n cael ei dargadw. Mae hyn yn golygu y bydd y cyfyngiadau'n dal yn berthnasol yn y DU. Bydd rhai diwygiadau i'r gyfraith a ddargedwir yn dod i rym ar ddiwedd y cyfnod pontio i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn dal yn ymarferol yng nghyd-destun y DU, ac yn dal yn gweithio yn ôl y bwriad. Mae'r diwygiadau hyn wedi cael eu cynnwys mewn nifer o offerynnau statudol. Y prif un yw Rheoliadau Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019.

Roedd Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 wedi cyflwyno mesurau gorfodi ar gyfer troseddau o dan Reoliad 1143/2011 yr UE, a phroses drwyddedu. Mae'r broses drwyddedu'n golygu bod caniatâd i gynnal rhai gweithgareddau cyfyngedig cyhyd â'u bod yn cael eu cynnal o dan delerau trwydded. Mae esboniad llawn o oblygiadau rhestru i sŵau yn Atodiad 2.

## CANLLAWIAU CYFFREDINOL

### 1. Cadw

Dylid cadw anifeiliaid anfrodorol mewn llociau diogel nad oes modd dianc ohonynt. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod llociau'n ddigon diogel i atal anifeiliaid rhag dianc.

Canllawiau cyffredinol yw'r canlynol ac ni ddylid eu dilyn ar draul arferion da y diwydiant neu gyngor arbenigol.

O ran llociau:

- dylent gynnwys rhwystrau wedi'u dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal i gadw'r anifeiliaid;
- dylent gynnwys giatiau a drysau, sy'n cael eu cloi ac sydd yr un mor effeithiol yn cadw'r anifeiliaid â gweddill y lloc;
- ni ddylent gynnwys unrhyw lystyfiant nac eitemau eraill a allai helpu anifeiliaid i ddianc.

Dylid cadw anifeiliaid sy'n gallu dringo neu neidio mewn llociau sy'n ddigon diogel i'w hatal rhag dianc. Dylid arolygu coed yn aml a'u tocio neu eu torri i lawr fel y bo'n briodol i'w hatal rhag helpu anifail i ddianc neu fygwth cyfanrwydd y lloc.

Dylid cadw anifeiliaid sy'n tyrchu dan ddaear mewn llociau wedi'u hadeiladu i'w hatal rhag dianc, ee drwy dyrchu o dan ffens perimedr y lloc.

Dylech allu dangos bod y lloc wedi'i adeiladu'n ddigonol i gadw'r anifail perthnasol, yn ddelfrydol drwy gyfeirio at safonau'r diwydiant neu gyngor arbenigol. Mewn sefyllfaoedd lle nad oes cyngor arbenigol ar gael, dylech allu cyfiawnhau safon y cyfleusterau a dangos ar ba sail y barnwyd eu bod yn addas. Byddai gwneud hyn yn gallu helpu i ddarparu tystiolaeth eich bod wedi cyflawni eich cyfrifoldebau pe bai

anifail yn dianc.

Os caiff llociau eu difrodi, er enghraifft yn sgil llifogydd, dylid eu trwsio cyn gynted ag y bo modd a symud anifeiliaid i lociau diogel heb eu difrodi tra bo’r gwaith trwsio’n cael ei wneud.

Dylid gosod y ffens perimedr yn sownd yn unol â safonau Llywodraeth Cymru a’r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer arferion sŵau modern.

## 2. Arddangosfeydd

Dylech ystyried y risg o ddianc wrth ystyried defnyddio unrhyw anifeiliaid anfrodorol mewn arddangosfeydd y tu allan i loc diogel. Dylech sicrhau na all yr anifeiliaid hyn ddianc i’r amgylchedd ehangach a bod gennych gynlluniau wrth gefn y gellir eu rhoi ar waith os bydd anifeiliaid yn dianc i’r gwyllt.

Ni ellir defnyddio rhywogaethau sydd wedi’u rhestru o dan Reoliad 1143/2011 yr UE mewn arddangosfeydd, ee arddangosfeydd hedfan gyda’r ibis cysegredig.

## 3. Cludiant

Ni ddylech gludo unrhyw rywogaethau rhestredig o’ch sw oni bai fod hyn wedi’i gynnwys yn eich trwydded.

## 4. Dianc

Dylid gwneud pob ymdrech, i’r graddau sy’n rhesymol ymarferol, i adfer unrhyw anifeiliaid sydd wedi dianc, boed fyw neu farw. Os nad yw trwydded eich sw yn nodi pwy ddylai gael gwybod am unrhyw ddihangfa, dylech gysylltu ag awdurdod trwyddedu eich sw i drafod pa gamau mae’n gofyn i chi eu cymryd.

Os bydd rhywogaeth restredig (neu unrhyw rywogaeth anfrodorol sy’n debygol o ymsefydlu yn y gwyllt) yn dianc, dylid rhoi gwybod hefyd i’r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, Cyfoeth Naturiol Cymru (ffoniwch ymholiadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar 03000 653000) neu Natural England (ffoniwch y tîm ymholiadau ar 0300 060 3900) cyn gynted ag y bo modd (yn dibynnu ble mae eich sw).

Dylid rhoi gwybod i’r holl staff mewn dogfen ysgrifenedig am y camau i’w cymryd os bydd unrhyw anifail yn dianc yn y sw neu o’r sw. Gallai cael camau o’r fath, a’u cymryd os bydd dihangfa, fod yn dystiolaeth eich bod wedi gweithredu’n gyfrifol.

## 5. Materion ychwanegol

Dylech ystyried risgiau posib rhyddhau parasitiaid, clefydau neu blanhigion ac anifeiliaid anfrodorol drwy elifion a llwybrau eraill. Dylid trin dŵr gwastraff yn briodol i sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

Os ydych chi’n defnyddio planhigion anfrodorol sydd wedi’u rhestru yn Atodlen 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, er enghraifft i greu cynefin neu fel porthiant, rhaid i chi sicrhau nad ydych chi’n achosi i’r planhigion hynny dyfu yn y

gwyllt. Ni ddylid defnyddio rhywogaethau planhigion sydd wedi'u rhestru o dan Reoliad 1143/2014 yr UE oni bai fod hynny'n cyd-fynd â thrwydded wedi'i chyhoeddi gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, Cyfoeth Naturiol Cymru neu Natural England.

## 6. Dolenni defnyddiol

Safonau'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Arferion Sŵau Modern

Safonau Llywodraeth Cymru ar gyfer Arferion Sŵau

European code of conduct on zoological gardens and aquaria and invasive alien species

Atodlen 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019

**Atodiad 1: Y rhestr gyfredol o anifeiliaid sydd wedi'u rhestru o dan Reoliad 1143/2014 yr UE (fel Rhywogaethau Estron Goresgynnol o Bryder i'r Undeb).**

| **Enw gwyddonol** | **Enw cyffredin** |
|---|---|
| *Acridotheres tristis* | Maina cyffredin |
| *Alopochen aegyptiacus* | Gŵydd yr Aifft |
| *Arthurdendyus triangulatus* | Llyngyren ledog Seland Newyd |
| *Callosciurus erythraeus* | Gwiwer Pallas |
| *Corvus splendens* | Brân tai |
| *Eriocheir sinensis* | Cranc manegog Tsieina |
| *Herpestes javanicus* | Mongŵs bach India |
| *Lepomis gibbosus* | Swilyn tagell-goch |
| *Lithobates (Rana) catesbeianus* | Marchlyffant Americanaidd |
| *Muntiacus reevesii* | Carw mwntjac |
| *Myocastor coypus* | Coipw |
| *Nasua nasua* | Coati |
| *Nyctereutes procyonoides* | Racŵn-gi |
| *Ondatra zibethicus* | Llygoden y mwsg |
| *Orconectes limosus (Faxonius limosus)* | Cimwch afon rhesog |
| *Orconectes virilis (Faxonius virilis)* | Cimwch afon y gogledd |
| *Oxyura jamaicensis* | Hwyaden goch |
| *Pacifastacus leniusculus* | Cimwch afon America |
| *Percottus glenii* | Cysgadur Amur |
| *Plotosus lineatus* | Cathbysgodyn rhesog |
| *Procambarus clarkii* | Cimwch coch y gors |
| *Procambarus fallax f. virginalis (Procambarus virginalis)* | Cimwch afon brith |
| *Procyon lotor* | Racŵn |
| *Pseudorasbora parva* | Llyfrothen uwchsafn |
| *Sciurus carolinensis* | Gwiwer lwyd |
| *Sciurus niger* | Gwiwer dorgoch |
| *Tamias sibiricus* | Gwiwer resog Siberia |
| *Threskiornis aethiopicus* | Ibis cysegredig |
| *Trachemys scripta* | Terapin clustgoch |
| *Vespa velutina nigrithorax* | Cacynen Asia |

**Atodiad 2: Cyfrifoldebau o dan gyfraith yr UE a ddargedwir ynghylch Rhywogaethau Goresgynnol Estron a Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019**

Daeth Gorchymyn 2019 i rym ar 1 Rhagfyr 2019. Mae'n gweithredu gofynion yn Rheoliad 1143/2014 yr UE, gan gynnwys amlinellu'r cosbau ar gyfer torri'r cyfyngiadau, amddiffynfeydd a darpariaethau eraill sy'n ymwneud â gorfodi.

Nid yw'r troseddau yng Ngorchymyn 2019 yn berthnasol i unrhyw beth sy'n cael ei wneud o dan drwydded ac yn unol â thrwydded.

*Cadw*

Rhaid i bob sw sy'n cadw unrhyw o'r rhywogaethau hyn ddal trwydded wedi'i chyhoeddi gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion. Yn yr amgylchiadau hyn, gellir cyhoeddi trwyddedau at ddibenion "cadw ex situ" neu ymchwil[1]. Bydd y math o drwydded sy'n briodol yn dibynnu ar y gweithgareddau sy'n cael eu gwneud gan y sw.

Gallwch wneud cais i'r Asiantaeth am drwydded o dan Erthygl 35 (1) (a) o Orchymyn 2019.

Mae ffurflen gais ar wefan gov.uk;
https://www.gov.uk/government/publications/invasive-alien-species-permit-application

Dylid cyflwyno ceisiadau am drwydded i wildlife.licensing@apha.gov.uk

Un o amodau'r drwydded yw bod sŵau'n cadw'r anifeiliaid hyn mewn lloc diogel ac yn cymryd pob cam rhesymol i'w hatal rhag dianc neu atgenhedlu.

*Bridio, cludo, gwerthu*

Rhaid i sŵau gymryd camau priodol i atal bridio ac i farcio unigolion lle bo'n briodol, neu eu nodi'n effeithiol mewn ffordd arall, gan ddefnyddio dulliau nad ydynt yn achosi poen, trallod neu ddioddefaint diangen. Mae modd trosglwyddo rhywogaethau rhestredig i sŵau eraill i barhau i'w harddangos os oes gan y sw sy'n cludo drwydded i wneud hynny. Rhaid i'r sw sy'n cael yr anifeiliaid feddu ar drwydded i gadw cyn y broses drosglwyddo.

Mae rhagor o ganllawiau ar Orchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 ar gael ar gov.uk. Darllenwch y canllawiau ar rywogaethau anifeiliaid a phlanhigion.

1 Mae hefyd yn bosib cael trwydded o dan yr amgylchiadau canlynol:

i. Cynhyrchu gwyddonol, a defnydd meddyginiaethol wedi hynny, os oes angen defnyddio cynnyrch o rywogaethau estron goresgynnol i wella iechyd pobl; neu

ii. mewn amgylchiadau eithriadol, gellir cyfiawnhau gweithgareddau eraill drwy resymau o ddiddordeb arbennig cyhoeddus, gan gynnwys rhai o natur gymdeithasol neu economaidd, yn unol ag Erthygl 9 o'r Prif Reoliad (awdurdodi).